

WILLIAMS, JOHN RICHARD ('J.R. Tryfanwy'; 1867 - 1924), bardd

Enw: John Richard Williams
Ffugenw: J.r. Tryfanwy
Dyddiad geni: 1867
Dyddiad marw: 1924
Rhiant: Mary Williams
Rhiant: Owen Williams
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd
Maes gweithgaredd: Eisteddfod; Barddoniaeth
Awdur: William Gilbert Williams

mab Owen a Mary Williams, dau o L n; ganwyd yn Nhan y Manod, Rhostryfan, 29 Medi 1867. Pan oedd ef yn fachgen amharwyd ar ei olwg a'i glyw, dau aflwydd a'i gwnaeth yn ddall ac yn fyddar dros weddill ei oes. Yn 1880 symudodd y teulu i fyw yn y Tyddyn Difyr ar lethr Moeltryfan. Collwyd y tad trwy ddamwain ymhen ychydig flynyddoedd, a daeth y fam a'r bachgen yn ôl i Dan y Manod. Yn fuan ar ôl hynny bu farw'r fam a gadael y mab yn ddi-gefn ac yn analluog i'w amddiffyn ei hun. Cymerwyd ef at fodryb a drigai ym Mhorthmadog, ac yno y bu hyd ei farw, 19 Mawrth 1924. Dangosodd yn ieuanc duedd at farddoniaeth, ac er gwaethaf ei ddallineb meistrolodd reolau barddas, a chanodd liaws mawr o bryddestau, awdlau, telynegion, englynion, etc. Cyhoeddwyd lluo o'i weithiau yn *Cymru (O.M.E.)* yn gystal ag mewn cylchgronau eraill. Enillodd ddeg o gadeiriau (yn eisteddfod yr Eifl, y Ddraig Goch, Lerpwl, Môn, y Fflint, a mannau eraill) Cyhoeddodd ddwy gyfrol o'i farddoniaeth, sef *Lloffion yr Amddifad*, 1892, ac *Ar Fin y Traeth*, 1910. Bu'n wrthrych gofal a charedigrwyd ei gyfaill '[Eifion Wyn](#)' am gyfnod maith.

Awdur

William Gilbert Williams, (1874 - 1966)

Ffynonellau

Ysgrif goffa gan berthynas iddo

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [John Richard Williams \(J.R. Tryfanwy\)](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [146996605](#)

Wikidata: [Q6254763](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Evch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

